PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 36 | Medi 3, 2026 | 50c.




Mae marwolaeth y gantores Dolly Parton yn 80 oed wedi cael sylw byd-eang. Yn berson oedd wastad â gwên ar ei hwyneb, roedd caneuon Dolly yn rhai pwerus a didwyll. Roedd hi'n ymfalchïo yn ei magwraeth dlawd a Christnogol gadarn. Er iddi droi cefn ar grefydd ffurfiol, dywedodd ei bod hi'n diolch i Dduw bob bore, gan ofyn am arweiniad drwy'r dydd. Roedd hi hefyd yn ymfalchïo yn ei thras Gymreig.

### Geni mewn tlodi i deulu crefyddol

Cafodd Dolly Rebecca Parton ei geni ar 19 Ionawr 1946, y pedwerydd o 12 o blant, mewn caban un-ystafell ger tre fechan Pittman Centre yng nghefn gwlad Tennessee. Symudodd y teulu wedyn i fyw ar fferm fechan gan grafu byw yn tyfu tybaco. Roedd ei thad-cu Jake Robert Owens yn weinidog yn y capel Pentecostaidd lleol ac yno dechreuodd Dolly ganu pan yn ferch fach. Cafodd gitâr gan ei hewythr pan oedd hi'n wyth mlwydd oed. A dyna ddechrau'r daith i fod yn seren fyd-enwog wnaeth gyfansoddi 3,000 o ganeuon a gwerthu 100 miliwn o recordiau, yn ogystal ag actio a sefydlu busnesau llwyddiannus. Hi oedd 'brenhines y canu gwlad.'

### Y cefndir Cymreig

Mae ei chân 'Coat of Many Colours' yn sôn am y tlodi cynnar, a'i mam yn gwneud cot iddi allan o glytiau amryliw, wrth adrodd stori Joseff a'r siaced fraith. Roedd hi'n falch iawn o'i chot newydd, ond yn yr ysgol dechreuodd y plant eraill chwerthin ar ei phen. Flynyddoedd wedyn fe ganodd Dolly:

> I know we had no money / But I was rich as I could be
> In my coat of many colors / My momma made for me.

Wrth ymfalchïo yn ei magwraeth, roedd hi hefyd yn ymfalchïo bod ei mam, Avie Lee Owens, o dras Gymreig. O'r llwyfan mewn cyngerdd yng Nghaerdydd yn 2008 cyhoeddodd: 'Mae pobl fy mam, yr Owens, yn dod o Gymru. Rydw i wedi bod yma deirgwaith ac mae bob amser yn deimlad da, yn naws deuluol.' Ychwanegodd y byddai'n hoffi dysgu Cymraeg.

### Ffydd gynhwysol

Dywedodd Dolly Parton ei bod hi'n hynod falch o'i chefndir mewn capel, a'i bod hi'n gyfarwydd iawn â straeon y Beibl. Pan oedd yn blentyn arferai fynd i'r ysgol Sul a chyrddau gweddi ar y Sul ac ar noson waith. Cafodd ei magu i ddeall bod Duw yn gwneud unrhyw beth yn bosibl, a bod Iesu'n ei charu hi. Er nad yw'n arddel unrhyw ddogma crefyddol, meddai, mae'r hyn ddysgodd ym more oes yn ei chaneuon ac yn ei chalon, ac yn ei chadw hi'n wylaidd. Dywedodd bod ei ffydd yn un cynhwysol, gyda'r pwyslais ar gariad a bod yn 'galon-agored.' Mewn cyfweliad yn y cylchgrawn *Marie Claire* yn 2020, dywedodd: 'Bob bore, cyn i mi wneud dim arall, rwy'n diolch i Dduw am y noson ac yn gofyn iddo fendithio'r dydd ... i'm tywys, i'm harwain i.'

### Duw'n gydawdur ei chaneuon

Mae Duw gyda hi wrth gyfansoddi ei chaneuon, meddai. 'Duw yw fy nghydawdur a'm llywydd, oherwydd rwy'n teimlo mai oddi wrtho rwy'n tynnu fy nerth. Wrth weithio rwy'n gadael fy hun yn agored i Dduw. Mae gan bob un ohonom ein doniau. Os nad ydym yn eu defnyddio fel y dylem ni, rydym yn cadw'n golau o dan ddysgl, fel meddai Iesu. Os nad ydych chi'n gadael i'r golau ddisgleirio, bydd yn diffodd. Gan i mi gael y rhodd yma gan Dduw rwy eisiau ysgrifennu, creu, lledaenu llawenydd a lledaenu neges. Ac rwy eisiau bod yno i bobl eraill.'

### Ffydd ymarferol

Roedd Dolly Parton yn rhedeg nifer o elusennau, gan gynnwys yr 'Imagination Library' sydd wedi dosbarthu dros 120 miliwn o lyfrau i blant ar draws y byd. Yn 2019, fe gyfrannodd $1m tuag at y gwaith o ddatblygu brechlyn Covid-19. Pan fuodd tanau gwyllt ar fynyddoedd Tennessee yn 2019, fe wnaeth hi greu cronfa o $9m ar gyfer y teuluoedd oedd wedi dioddef oherwydd y tanau. Ac yn sgil Corwynt Helene dwy flynedd yn ôl fe roddodd $2m mewn cymorth.

### Teyrngedau

Ar ôl i Dolly Parton golli ei brwydr gyda chancr, dywedodd ei theulu ei bod hi bellach 'yn ddiogel ym mreichiau Iesu.' Talwyd teyrngedau di-ri gan fawrion y byd adloniant. Dywedodd Taylor Swift ei bod hi'n berson hynod galon-feddal, ond ag asgwrn cefn fel dur pan oedd angen sefyll dros hawliau. 'Wnes i erioed adnabod neb fel hi,' meddai Jane Fonda. 'Roedd hi wastad yn gwybod beth i wneud, beth i ddweud a gwneud pethau'n iawn.' Yr unig nodyn sur yw'r modd y mae Donald Trump wedi ceisio manteisio ar farwolaeth Dolly Parton trwy honni ei fod fel 'colli un o'i deulu,' a gorchymyn hedfan baneri ar draws yr Unol Daleithiau ar hanner y mast. Yn ystod ei bywyd fe wnaeth Dolly wrthod ddwywaith dderbyn y 'Presidential Medal of Honour' gan yr arlywydd Trump. Yr ymateb i'r fath ragrith ar draws y cyfryngau cymdeithasol yw: 'We need less Donalds and more Dollys.' Amen i hynna!

**Alun Lenny**

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol – *Rhan 6*

*Dyma ran olaf adroddiad swmpus yr Ysgrifennydd Cyffredinol Elinor Wyn Reynolds a draddodwyd yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn Abertawe. Beth am anfon ymateb i'r* Tyst *am yr heriau, y bwriadau a'r cynlluniau sy'n yr adroddiad hwn? Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn a ddywedir?*



Yr ydym ni'n falch i fedru dweud fod esblygiad y cynllun Arloesi a Buddsoddi i ddod yn Cefnogi Cyfle wedi dechrau magu sbîd ac y mae yna gynnydd yn y niferoedd o gynlluniau sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid. Bellach, mae'r cynllun yn para tair blynedd ac yn cynnig hyd at £20,000 y flwyddyn am y tair blynedd i wireddu cynllun fydd yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau eglwysig yn eu hardaloedd. Yr ydym ni'n rhannu straeon y prosiectau hyn gyda chi, gan obeithio'ch bod chi'n mwynhau clywed yr hanesion a hefyd eu bod yn ysbrydoli pobl i feddwl 'Gallwn ni wneud hynny hefyd!' Cefnogi gwaith llawr gwlad yw Cefnogi Cyfle, mae gennym gymunedau ledled Cymru all elwa ar yr arian hwn.

### Strategaeth

Fe welwch chi ein bod ni'n symud yn ein blaenau gyda bwriad a phenderfyniad pendant ac yn gweithio'n fwy strategaethol gyda'n gilydd fel staff er lles yr eglwysi a'r cyfundebau ac felly, er mwyn i ni fedru parhau i ddatblygu a chyflenwi'r hyn sydd ei angen ar ein heglwysi Annibynnol ni. Y tu hwnt i'r cyfarfodydd blynyddol, byddwn ni'n cychwyn gweithio ar strategaeth newydd ar gyfer yr Undeb, yn ei thrafod yn ehangach a thrwy hynny ei gwella, ei mireinio a'i haddasu gan ein hamrywiol bwyllgorau a'r Cyngor, gan anelu at gael strategaeth gyflawn ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae ein llygaid yn gyson ar y ffaith ein bod ni'n gwerthuso ac ystyried gyda phob cam a'n bod ni'n ymatebol i'n hamserau a'r gofynion cyfnewidiol sy'n ein hwynebu ni.

### Byd-eang

Wrth gwrs, rydym ni'n ymwybodol bod angen i ni fod yn rhan o'r sgwrs fyd-eang hefyd am ein bod ninnau'n rhan o'r byd hwn. Efallai mai bach yw Cymru, ond y mae gennym lais. Yr ydym ni'n parhau i gynrychioli'r Annibynwyr gyda Cytûn, gyda Chyngor Eglwysi'r Byd, Cymdeithas Annibynwyr y Byd, gydag Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, Grŵp yr Eglwysi Rhyddion, Cymorth Cristnogol, Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ac wrth gwrs, CWM. Y mae Owain Davies allan yn ein cynrychioli ni yng nghyfarfodydd blynyddol CWM yn Seland Newydd ar hyn o bryd a Dylan Rhys yn parhau i fod ar fwrdd CWM. Ddechrau wythnos nesaf bydd Sian Meinir, Mair Tomos Ifans a minnau'n mynychu cyfarfod CWM Ewrop yn Utrecht ac yna Rhodri Darcy, Geraint Rees a minnau'n cyfarfod i drafod cychwyn y Mission Support Programme 5 yn ystod ail hanner yr wythnos. Y mae'r sgyrsiau a gawn gyda'n cyfeillion o bob cwr o'r byd yn rhai huawdl, cynhaliol a thwymgalon

### Dod i fwcl

Rwyf am orffen ar nodyn o her i chi. Fe wyddom ein bod ni'n byw mewn cymdeithas ôl Gristnogol (post Christian society) – mae'n heriol i ni fel Cristnogion, ydy. Ond y gwir yw, y bobl sydd yn byw yn ein gwlad yw ein heglwys ni, nhw yw'n cynulleidfa ni, ac eto, does yna braidd dim cyswllt na Chymraeg rhyngom ni, oes e? Y mae'r eglwys yn amherthnasol i'r rhan fwyaf yn yr oes hon, ac mi ydw i yma i ddweud fod hynny'n hollol iawn. Does dim anfri na siom yn hynny yn fy marn i. Ys dywed fy merch ddoeth, 'It is what it is.' Ond, dydy pobl heddiw yn ddim gwell na gwaeth na phobl o flynyddoedd yn ôl. Yr un calonnau sydd ganddyn nhw, yr un meddyliau, yr un teimladau, yr un ofnau, yr un gobeithion. Ac mae gennym ni gymaint yn gyffredin hefyd, ein bod ni'n credu mewn cyfiawnder, mewn rhannu, mewn cymdeithas, ein bod ni'n caru Cymru, y Gymraeg, a'n bod ni'n coleddu'r un gwerthoedd, sef y gwerthoedd gorau. Mae'r trawsraniadau rhwng y llenyddol, y diwylliannol, yr ieithyddol, yr hunaniaethol yn fan cyfoethog i gwrdd â phobl.

Ar faes y steddfod llynedd, wrth sefyll y tu fas i far Syched, mi glywais genedl gyfan yn morio canu emynau. Dyma'n pobl ni. Felly, sut ydyn ni am ddechrau'r sgwrs gyda nhw? Mae'r hen ffordd o siarad, o gyfathrebu wedi colli tir, felly sut ydyn ni am siarad â phobl ar eu tonfedd hwy? Sut wnawn ni ddangos cariad diwarafun? Sut wnawn ni roi croeso heb ddisgwyl dim yn ôl? Sut allwn ni newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau er mwyn cynnwys pawb, oherwydd y mae digon o lastig yn yr efengyl i ni fod yn hyderus, fod newid ein ffyrdd o ddweud pethau a gwneud pethau yn rhoi cyfle i ni ddod i nabod pobl efallai nad oeddem ni'n eu hadnabod cynt a hynny heb newid dim ar ysbryd yr Efengyl, ac y byddai hynny'n iechyd calon i *bob* enaid. Ein pobl ni yw pobl Cymru, bob un ohonynt. Dyma'n heglwys ni. Ac yn awr yn fwy nag erioed, mae angen cariad Crist arnom a'r Ysbryd Glân i'n hadfywio. Beth wnewch chi o heddiw ymlaen i wneud y cysylltiad, i gychwyn y sgwrs ac i rannu cariad Crist yn yr hen fyd yma? Fel dywedodd un o'n gweinidogion ni, 'Does gennym ni ddim i'w golli, ac mae hynny'n gynhyrfus,' sy'n hollol wir, ond bobl annwyl, y mae gennym ni gymaint, gymaint yn fwy i'w ennill.

Amdani bobl! Mae gwaith gennym ni i'w wneud.




Yr Adran Gydenwadol

3 Medi 2026
Rhifyn 288

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod: www.cennad.cymru

## Lansio llyfr newydd


Yn ddiweddar cyhoeddodd y Parchg Richard Cleaves gyfrol newydd yn seiliedig ar ei waith ymchwil diweddaraf. Teitl y gyfrol yw *Imagining Luke-Acts in Roman Britain through the Eyes of the People of the Bloomberg Tablets, the Vindolanda Tablets, and the Uley Tablets*. Mae'r llyfr hwn yn defnyddio llechi Rhufeinig a ddarganfuwyd yn ddiweddar ym Mhrydain i ail-greu byd a bywyd bob dydd y Cristnogion cynnar ac i archwilio sut y gallai pobl gyffredin ym Mhrydain Rufeinig fod wedi deall ac ymateb i neges Luc-Actau. Lansiwyd y gyfrol nos Fawrth, 30 Mehefin, yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae copïau ar gael gan yr awdur am y pris gostyngol o £20. (Fel arall, mae'n costio £37.)

Dywed Richard Cleaves, 'Ers imi ymddeol i Ben-y-bont ar Ogwr rwyf wedi bod yn ysgrifennu'r gyfrol *Imagining Luke-Acts in Roman Britain*. Er mai darlleniad dychmygol ydyw o Efengyl Luc ac Actau'r Apostolion drwy lygaid y bobl oedd yn gyfrifol am y llechi ysgrifennu o gyfnod y Rhufeiniaid a ddarganfuwyd yn ddiweddar, bydd o ddiddordeb i unrhyw un sydd â diddordeb mewn archaeoleg a Phrydain Rufeinig.'

'Dyma'r llyfr cyntaf i roi sylw manwl i'r tair set arbennig hyn o lechi ysgrifennu, sef:

- Llechi Bloomberg – yn dyddio o ganol y ganrif gyntaf. Fe'u darganfuwyd bymtheg mlynedd yn ôl yn Llundain a'u cyhoeddi yn 2016. Dyma'r darnau hynaf o ysgrifennu a ddarganfuwyd ym Mhrydain.
- Llechi Vindolanda – o gaer i'r de o fur Hadrian. Maent yn parhau i gael eu darganfod ac yn rhoi cipolwg rhyfeddol ar waith yr archaeolegydd ac ar fywyd yn y fyddin Rufeinig.
- Llechi Uley – a gyhoeddwyd yn 2024, ac sy'n rhoi cipolwg ar fywyd yng nghefn gwlad Prydain yn ystod y cyfnod Rhufeinig.

'O ddiddordeb arbennig i ni yng Nghymru y mae'r ffaith fod tystiolaeth ymhlith y llechi hyn o'r iaith Geltaidd y mae'r Gymraeg wedi tarddu ohoni. Rwyf hefyd wedi tynnu ar lyfr dwyieithog Peter Guest a gyhoeddwyd yn 2022, a newidiodd yn sylweddol y ddealltwriaeth o bresenoldeb y Rhufeiniaid yng Nghymru, sef: *The Roman Frontiers in Wales / Ffiniau Rhufeinig Cymru* (Cadw ac Archaeopress, 2022).'






## Cymanfa Undebol Aberdâr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Undebol Aberdâr yn Eglwys Fethodistaidd Green Street, Aberdâr, ddydd Sul, 17 Mai. Daeth tyrfa deilwng i'r ŵyl flynyddol i ganu tonau ac emyn-donau cyfarwydd ein cenedl. Croesawyd pawb gan Mair Lewis, Llywydd y Gymanfa, yn absenoldeb anorfod Alwyn Humphreys. Darllenwyd y ganfed salm gan Cerys Morris ac offrymwyd y weddi gan Teifwen George. Cafwyd bywgraffiadau cryno o'r arweinydd a'r organydd, Marc Jon Williams (Tabernacl, Caerdydd) gan y llywydd. Canwyd nifer o emynau gwahanol, yn cynnwys Nun Danket ar y geiriau 'Diolchwn oll i Dduw', Wilton Square ar eiriau 'I dawel lwybrau gweddi' a Monk's Gate ar eiriau John Bunyan, 'A fynno ddewrder gwir'.

Gwahoddwyd Côr Cwm Cynon, dan arweiniad Carys Crimmings a'r cyfeilydd Rhian Grundy, i ganu 'Y Darlun' gan Davey Davies a T. Rowland Hughes ac 'Ave Verum Corpus' gan Mozart, a chafwyd dehongliad swynol iawn ganddynt o'r ddwy gân.



*Côr Cwm Cynon yn dathlu dadorchuddio cerflun Elizabeth Andrews yn y Rhondda*

Rhoddodd y Llwydd grynodeb o'i magwraeth yng Nghwmdâr, a chyfeiriodd at yr argraff ddofn a greodd y capel a'i weinidog, y Parchg D. O. Davies, arni ac sydd wedi parhau drwy ei bywyd. Diolchodd i bawb am eu cyfraniadau, ac yn arbennig i aelodau a gweinidog y capel, y Parchg Malcolm Peacock, am eu cydweithrediad.


Cyhoeddodd David Evans (Ebeneser, Trecynon) ei fwriad i ymddeol o'r gadair eleni. Bu David yn weithgar iawn yn cadeirio pwyllgorau'r Gymanfa, a hynny ag urddas, gwên a didwylledd bob amser. Roedd clywed David yn offrymu gweddi daer yn brofiad arbennig. Dymunwn ymddeoliad hapus iddo o'i swydd.

*Gwyn Morgan*

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 33

## Ymson Swsanna

Bûm mewn gardd oedd fel maes y gad. Yno, roedd dau yn gwylio, ag awch yn glafoerio o'u gwefusau, er nad oeddwn yn ymwybodol ohonynt ar y dechrau. Credodd y ddau, yn annibynnol a gyda'i gilydd, y gallent fy nefnyddio i'w dibenion eu hunain. Yn eu dychymyg, roeddent eisoes yn gweld fy nghorff yn ildio i'w blys. Yn eu meddyliau, roeddent yn ddieuog.

Fe roddon nhw ddewis amhosibl imi: bradychu fy hunaniaeth neu gael fy nghladdu dan bridd eu cyhuddiad. Hyd yn oed nawr, cofiaf amser yn aros yn stond cyn imi ateb, ac ofn yn bwysau trwm ar f'anadl. Ond er imi simsanu, cydiodd rhywbeth ynof: sefais yn dalsyth gan ddweud bod yn well gennyf ddioddef ynghanol y gwir na byw dan gysgod celwydd. Synnais eu bod wedi derbyn fy ateb yn y fan a'r lle, ac nad oedd dim wedi digwydd. Roeddwn yn siŵr y byddent yn fy nhreisio. Tu mewn, ro'n i'n crynu.

Gwyddwn nad dyna fyddai diwedd y stori. Bu raid imi fynd o flaen y llys. Roedd y ddau wedi arfogi eu hunain â'u gwisgoedd cyfreithiol a blynyddoedd o brofiad. Safent yno'n awdurdodol, â baner cydwybod glir ac enw da yn hofran uwch eu pennau. Dysgais y funud honno sut mae anghyfiawnder yn benthyg côt barchus. 'Dyw'r Un aflan byth yn ei gyflwyno'i hun fel y Drwg. Mae'n gwenu, yn eistedd ar ei sedd freintiedig, ac yn disgwyl i bawb ymgrymu iddo.

Peidiwch, da chi, â meddwl bod fy stori'n perthyn i Fabilon yn unig. Edrychwch o'ch cwmpas. Sawl un sy'n teimlo'i fod wedi'i ddedfrydu cyn cael gwrandawiad? Pwy yw'r merched sydd wedi gorfod ateb, 'Beth o't ti'n ei wisgo?' Pa leisiau pwerus sy'n aredig y gwir, gan obeithio y bydd dylanwad yn gryfach na'r dystiolaeth?

Fy ngardd i yw eich swyddfeydd chi, eich dosbarthiadau, eich llysoedd, eich meysydd parcio, eich llwybrau cefn a'r miloedd o strydoedd digidol y mae miliynau'n eu troedio!

Efallai nad yw pobl yn cuddio'r tu ôl i goeden y dyddiau hyn; yn hytrach, maent yn sefyllian y tu ôl i'r sgrin a'r drws cloëdig. Byddant yn dylanwadu ar gwmnïau yn hytrach na chynghorau, ar ddilynwyr yn hytrach na chynulleidfaoedd, ar algorithmau yn hytrach na byddinoedd. Daeth newid i'n byd, newydd-deb i'n technoleg, ond yr un yw'r galon feidrol.

Gwn yn iawn am fod mewn lle cyfyng. Teimlais ddwylo unigrwydd yn crwydro dros fy nghorff. Gwelais bobl yn sibrwd yn y corneli. Mae stori dda wastad yn ennyn chwilfrydedd. Gyda'r gwir, rhaid bod yn amyneddgar weithiau – ceisio deall a gwrando'n feddylgar.

Gwn hefyd sut y mae dewrder yn ymledu a hedyn gobaith yn ffrwythloni. Penderfynais gofleidio dewrder, ac oherwydd imi wneud hynny, plannodd Duw fentergarwch yng nghalon Daniel. Fe oedd yr un a dorrodd ar draws sŵn peirianwaith anghyfiawnder. Mynnodd gael atebion. Gwrthododd dderbyn yr hyn oedd ar yr wyneb yn unig; aeth ymhellach, o dan yr wyneb.

Ymbiliaf arnoch felly i beidio tanbrisio'r ymholiad: 'Ydy hyn yn wir?' Gofynnwch y cwestiwn i chi eich hun cyn ailadrodd pwt o stori, cyn rhannu rhywbeth nad ydych yn berffaith siŵr ohono, cyn esgusodi rhywun oherwydd eu safle, cyn anwybyddu'r gwir.

Mae gan bob oes ei gardd, ei thystion gwir a gau, ei Daniel ei hun. Cofiwch nad yw cyfiawnder yn dechrau mewn man sicr, ond gydag ymchwil onest. Felly, amddiffynnwch urddas pob enaid byw. Gwrthodwch glymu uniondeb wrth awdurdod. Sefwch gyda'r rhai sy'n crynu dan bwysau cyhuddiad. Ac os daw'r Drwg i'ch temtio chi, fel mae'n siŵr o ddod ryw ddydd, sefwch yn gadarn â dewrder yng nghledr eich llaw. Dewiswch y Gwir bob tro, hyd yn oed os yw'n costio ichi, a bydd hedyn gobaith yno i genedlaethau yfory.

**Holi**

- Gawsoch chi brofiad ofnus erioed, neu brofiad o orfod dewis rhwng y gwir a'r gau? Beth sydd gan Swsanna i'n dysgu ni am ddewrder a ffydd dan amodau anodd?
- Oes angen inni fel eglwysi fod yn wyliadwrus o gamddefnyddio grym (un ai yn ein systemau eglwysig, neu o fewn cymdeithas)? Sut allwn ni feithrin diwylliant iach?
- Yn y stori, credodd y dorf yr henuriaid. Ydy hyn yn datgelu rhywbeth inni am yr angen i osgoi rhadybiaethau neu ddilyn barn gyhoeddus?
- Sut allwn ni fod yn fwy tebyg i Daniel heddiw? Ac ydy stori Swsanna'n ein cymell i wneud rhai pethau'n wahanol o fewn ein heglwysi, ein gweithleoedd, ein cymunedau (byw a digidol)?

**Gweddi**

Weithiau, Arglwydd,
bydd rhywbeth yn ein hysgwyd ni;
bydd yn gaer.
Weithiau, Iôr,
byddwn yn anobeithio;
bydd yn ysbrydoliaeth.
Weithiau, Dduw,
daw llif bywyd fel ton swnami
drosom;
bydd yn angor.
Weithiau, cawn ein siomi;
bydd yn gysur. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 6 Medi 2026**

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 6 Medi am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Delyth Richards, Caerfyrddin

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 6 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Megan Williams, Porthaethwy.

# Pobl Ifanc a'r Eglwys

gan Robyn O'Connor (Gweithiwr Plant ac Ieuenctid Henaduriaeth y De-ddwyrain; *cyfieithiwyd o'r Saesneg*)

Yn 2021, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai'r bobl oedd yn disgrifio'u hunain fel 'Cristnogion' oedd y grŵp â'r oedran cyfartalog uchaf – 51 oed, o'i gymharu â 40 oed ar gyfer poblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr.

Mae'r eglwys Gristnogol yn colli cysylltiad â theuluoedd a phobl ifanc, ond nid oes rhaid iddi hynny fod felly. Mewn gwirionedd, ni all fod felly os ydym am weld dyfodol i'r eglwys. Nid yw buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf yn rhywbeth 'braf i'w wneud' yn unig; dyma'r UNIG ateb i'r Eglwys ar gyfer cynaliadwyedd a thwf hirdymor. Heb bobl ifanc, rydym yn troi'n amgueddfa yn hytrach nag yn ffordd o fyw. Rhaid i ni barhau i fod yn berthnasol i'r genhedlaeth iau heb gyfaddawdu ar ein gwerthoedd fel Cristnogion.

Nid yw dod â phobl ifanc a theuluoedd i'r eglwys yn ymwneud â chynyddu'r niferoedd yn ein hadeiladau yn unig; mae hefyd yn faes cenhadol yn ein mysg. Drwy gefnogi'r genhedlaeth nesaf i dyfu mewn gwerthoedd tebyg i rai Crist, gallwn ddylanwadu ar lunio cymdeithas a chynnig doethineb i genhedlaeth goll sy'n chwilio am gyfeiriad. Yn y byd cyflym hwn, lle mae gwirionedd yn cael ei ddiffinio gan yr hyn y mae unigolyn yn ei gredu yn hytrach na chan ffeithiau sydd wedi'u sefydlu, mae galw dybryd am ganllawiau – rhai cadarn a di-sigl. Yn wir, y grwpiau crefyddol sydd fel pe baent yn denu'r nifer mwyaf o bobl ifanc yw'r rhai sydd â rheolau llym a chlir, ac sy'n ddigyfaddawd yn eu safbwyntiau. A dyna beth y gallwn ni, fel corff Crist, ei gynnig fel rhodd i'r rhai sy'n chwilio: sicrwydd, diogelwch a gwirionedd cadarn nad yw'n cuddio'i wyneb.

Mae'r Efengyl yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae'r Beibl yr un mor berthnasol ag yr oedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae pobl eisiau gweld beth sy'n gwneud i Gristnogion sefyll allan, nid pa mor agos y gallant fod at gymdeithas y maen nhw eisoes yn ei hadnabod. Dangoswch iddyn nhw sut mae ffydd yn berthnasol i'w bywyd a bydd yn dod yn rhan o'u bywyd.

Ond sut ydym ni'n gwneud hynny? Sut ydym ni'n cysylltu â phlant a phobl ifanc heddiw? Mae llawer o bobl yn gweld hyd yn oed y syniad yn frawychus neu'n flinedig wrth feddwl am yr egni sydd gan ieuenctid. Diolch byth nad rhestr hir o gymwysterau, teclynnau technolegol na lefelau ffitrwydd gwych yw'r ateb. Mae yna egwyddorion craidd y gellir eu cymhwyso, waeth beth yw maint eich eglwys nac oedran y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith. Bydd rhai'n ein hannog i addasu'r ffordd yr ydym yn meddwl am yr eglwys, a byddwn yn debygol o ddarganfod ein bod eisoes yn gwneud rhai pethau o'r fath bob dydd heb hyd yn oed sylweddoli hynny. Nid yw mynychu'r eglwys yn rhywbeth diwylliannol bellach; rhaid inni greu amgylchedd croesawgar a chyfforddus, addas ar gyfer ein cymdeithas heddiw, ond gan gynnal y gwerthoedd craidd.

**Cerddoriaeth**: Pa fath o ganeuon rydyn ni'n eu canu? Ai emynau traddodiadol ydyn nhw, rhai o'r ddau ddegawd diwethaf, neu gymysgedd o ganeuon? Ydy'r geiriau ar gael yn rhwydd, ynghyd â cherddoriaeth sy'n hawdd ei chlywed a'i dilyn? Mae llawer o bobl yn teimlo'n anghyfforddus yn canu caneuon nad ydyn nhw'n gwybod ei geiriau, neu sydd mewn arddull nad ydyn nhw wedi arfer ei chlywed. Os mai dim ond emynau traddodiadol rydych chi'n eu canu, allech chi gynnwys o leiaf un gân 'fodern' o fawl yn eich gwasanaeth i apelio at grŵp gwahanol o bobl?

Os oes aelodau o'ch eglwys sy'n gallu chwarae offerynnau, gallech ofyn iddyn nhw gymryd rhan yn y gwasanaeth o bryd i'w gilydd i greu sain wahanol. Neu gallech chwarae cerddoriaeth o CD neu gyfrifiadur i gyd-fynd â'r caneuon. Pwy a ŵyr, efallai y byddwch chi eich hun yn darganfod hoff gân newydd! Os ydyn nhw'n teimlo'n anghyfforddus yn canu, anogwch bobl i wrando yn unig ac ymgolli yn y geiriau a'r gerddoriaeth. Gallech osod blwch ar gyfer ceisiadau am emynau neu ganeuon mewn man cyfleus yn y capel fel y gall pobl gynnig awgrymiadau.

**Yr adeilad**: Gwnewch yr adeilad yn groesawgar cyn i rywun hyd yn oed gerdded drwy'r drws. Gosodwch arwyddion clir, yn enwedig ar gyfer pethau angenrheidiol fel toiledau, y gall fod yn anodd gofyn ble maen nhw. Ychwanegwch luniau fel y gall y rhai nad ydynt yn darllen ddeall hefyd. Rhowch berson cyfeillgar wrth y drws i groesawu pobl ac ateb cwestiynau. Trowch y goleuadau ymlaen y tu allan i'r drws a/neu yn y fynedfa fel nad yw'n teimlo'n dywyll pan ddaw rhywun i mewn. Neilltuwch le a gweithgareddau i deuluoedd â phlant i ddiddanu'r plant yn ystod y gwasanaeth.

**Bod yn Agored**: Gall hyd yn oed syllu mewn modd cyfeillgar ddychryn pobl ifanc, ac mae hyn yn wir am wneud sylwadau ar wisg neu iaith hefyd. Byddwch yn agored i'r syniad efallai eu bod yn gwisgo'n wahanol ac yn defnyddio geirfa nad ydych wedi'i chlywed o'r blaen. Dydi hynny ddim yn golygu ei bod yn anghywir.

**Iaith hygyrch**: Os cawsoch chi eich magu yn yr eglwys, rydych chi'n gwybod sut mae'r gwasanaeth yn gweithio ac mor gyfarwydd â'r Beibl fel ei bod hi'n hawdd anghofio y gall hyn fod yn fyd hollol newydd i ymwelwyr. Cymerwch yn ganiataol nad oes ganddyn nhw unrhyw wybodaeth cefndir. Felly, byddai cael taflen yn egluro trefn y gwasanaeth a beth i'w ddisgwyl yn ddefnyddiol. Gwnewch fersiwn sy'n addas i blant hefyd.

Ydych chi wedi edrych ar y geiriau sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth ac a fyddai'n bosib eu diweddaru i fod yn gliriach i'r rhai nad ydyn nhw'n gyfarwydd ag iaith y Beibl? Eglurwch ychydig am yr emynau a'r darnau o'r Beibl rydych chi'n eu darllen, neu o leiaf dywedwch ble i ddod o hyd iddyn nhw. Os oes gennych chi sgrin, dangoswch y darlleniadau a geiriau'r emynau arni ar gyfer rhai sydd am ddarllen gyda chi. Ychwanegwch ddelweddau neu bropiau at eich gwasanaeth; mae hyn yn apelio at blant a phobl o bob oed!

**Arddull hygyrch**: Rydym i gyd yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, yn blant ac yn oedolion. Felly, beth am wneud y profiad eglwysig mor ddiddorol ac mor berthnasol i'r ffordd y mae pobl yn meddwl â phosibl? Gallech gynnwys gwaith lliwio a chrefftau, defnyddio propiau neu fideos, cymharu'r darlleniadau â bywyd bob dydd, ac annog (ond peidiwch â gorfodi) y gynulleidfa i gymryd rhan. Mae hyn yn creu'r teimlad fod ffydd a'r eglwys yn ddiddorol, yn hytrach na bod yn brofiad goddefol yn unig. Ac os yw pobl yn teimlo'u bod yn rhan o'r gweithgaredd, fe fyddan nhw'n cofio ac fe fyddan nhw'n dod yn ôl.

# GOHEBIAETH

## Yr Ysbryd Glân – mwy nag enw

Darllenais erthygl Neville Evans, ‘Yr Ysbryd Glân’ – dim diolch’ (30 Gorffennaf), gyda chryn bryder a siom. Rwy’n parchu ei hawl i gwestiynu ac archwilio materion ffydd, ond ni allaf gytuno â’r casgliad fod ‘Yr Ysbryd Glân’ yn derm diangen neu gamarweiniol, nac mai ‘Duw’ sy’n dweud popeth sydd angen ei ddweud.

Fel Cristnogion sy’n arddel y ffydd Drindodaidd hanesyddol, credwn mewn un Duw: y Tad, y Mab a’r Ysbryd Glân – tri Pherson ac un Duw; y tri yn un a’r un yn dri. Nid rhywbeth a ddyfeisiwyd adeg y Sulgwyn yw hyn, ac nid yw Cristnogaeth yn dysgu mai adeg y Sulgwyn y daeth yr Ysbryd Glân i fodolaeth.

Mae Ysbryd Duw yno o’r cychwyn cyntaf, wrth gwrs. Yn Genesis 1:2 darllenwn am Ysbryd Duw yn ymsymud dros wyneb y dyfroedd. Ond nid yw’r ffaith fod yr Ysbryd yno o’r dechrau yn golygu bod yr Ysbryd Glân yn derm diangen. Yn hytrach, mae digwyddiadau’r Sulgwyn yn datgelu rhywbeth pellach am bresenoldeb a gwaith yr Ysbryd ym mywyd pobl Dduw.

Drwy’r Testament Newydd, nid yw’r Ysbryd Glân yn cael ei gyflwyno fel grym amhersonol yn unig, nac fel enw arall am Dduw. Mae’r Ysbryd yn dysgu, yn arwain, yn siarad, yn eiriol ac yn gallu cael ei dristáu hefyd. Yn Actau 5, mae Pedr yn dweud wrth Ananias ei fod wedi dweud celwydd wrth yr Ysbryd Glân, ac yna’n dweud ei fod wedi dweud celwydd wrth Dduw. Mae hynny’n arwyddocaol iawn. Felly, rwy’n ei chael hi’n anodd iawn derbyn y cynnig y dylem ddileu ‘Yr Ysbryd Glân’ o’n hemynau a’i ddisodli gan ‘Ei’ neu ‘Dy’. Yn wir? I mi, nid newid geiriau yn unig fyddai hynny. Byddai’n newid rhywbeth sylfaenol yn y ffydd y mae Cristnogion wedi’i chyffesu drwy’r canrifoedd.

Ac mae hyn yn codi cwestiwn arall yn fy meddwl, sut y gall erthygl sy’n herio mor uniongyrchol un o ddaliadau canolog y ffydd Gristnogol Drindodaidd gael ei chyhoeddi yn ein papur undebol ni, *Y Tyst*, heb unrhyw ymateb na sylw diwinyddol ochr yn ochr â hi?

Rwy’n credu mewn rhyddid i drafod ac i anghytuno. Mae trafodaeth onest am ffydd yn bwysig. Ond pan fo erthygl yn galw am ddileu’r term ‘Yr Ysbryd Glân’ o’n hemynau, ac yn disgrifio’r term hwnnw fel ‘ymyrraeth ddiangen, gamarweiniol, ailadroddus’, mae’n rhaid inni ofyn a yw hyn yn cynrychioli safbwynt *Y Tyst* a’n Undeb, neu ai barn bersonol yr awdur yn unig ydyw?

Os mai papur ein Undeb ni yw’r *Tyst*, yna mae gen i’r hawl i ofyn, ble mae llais y rhai ohonom sy’n dal yn gadarn at ffydd Drindodaidd hanesyddol ein heglwysi? Dylai fod lle i herio, ond dylai fod lle hefyd i ymateb – yn enwedig pan fo



gwirioneddau sylfaenol ein ffydd yn cael eu cwestiynu mor uniongyrchol.

Wrth gwrs, rhaid inni fod yn ofalus nad yw iaith Gristnogol yn troi’n ymadroddion gwag. Ond ni ddylem chwaith daflu o’r neilltu iaith sy’n mynegi gwirionedd dwfn a Beiblaidd.

Nid ychwanegiad diangen at ein dealltwriaeth o Dduw yw’r Ysbryd Glân. Duw yw’r Tad, Duw yw’r Mab, a Duw yw’r Ysbryd Glân – ac eto un Duw sydd. Dyma ddirgelwch wrth galon y ffydd Gristnogol: un Duw mewn tri pherson, y Tad, y Mab a’r Ysbryd Glân.

Efallai na allwn ddeall dirgelwch y Drindod yn llawn, ond nid yw dirgelwch yn golygu gwall. Felly, er fy mod yn parchu hawl Mr Evans i fynegi ei farn ddiwinyddol, ni allaf dderbyn ei gasgliad fel Cristion Trindodaidd. Fel Cristion ac fel un sy’n credu yn y Drindod, credaf y dylem barhau i gyffesu’n hyderus: Y Tad, y Mab a’r Ysbryd Glân – y tri yn un a’r un yn Dri. Dyma’r ARGLWYDD a addolwn ni. Am byth. Amen.

**Rhys Locke**



**Diwrnod i weinidogion ac arweinyddion sydd â gofal eglwys**

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Dewch i ymuno â ni mewn diwrnod arbennig sy’n canolbwyntio ar y thema **CYFATHREBU**

**Dydd Mawrth, 13 Hydref 2026 yn Llety’r Parc, Aberystwyth**

| | |
|---|---|
| **10:00** | **Te / coffi** |
| **10:15** | **Sian Meinir a’r Parchedig Beti-Wyn James**<br>Defosiwn yn seiliedig ar benderfyniad adran Yr Eglwysi a’u Gweinidogaeth yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. |
| **10:45** | **Delyth Phillips**<br>Yr emyn fel cyfrwng cyfathrebu |
| **11:45** | **Te / coffi** |
| **12:00** | **Sian Owen**<br>Eglwys Gynhwysol – yr angen i gyfathrebu’n effeithiol. |
| **13:00** | **Cinio** |
| **13:30** | **Trafodaeth**<br>‘Cyfathrebu effeithiol – allwedd i’n cenhadaeth’ |
| **14:00** | **Parchedig Cass Meurig**<br>‘Chwarae a Chredu’ – Godly Play yn y Gymraeg. Cyfle i ddysgu mwy am yr adnodd hwn i gyfathrebu â phlant. |
| **15:00** | **Parchedig Cass Meurig**<br>Defosiwn i gloi’r diwrnod ar ffurf ‘Chwarae a Chredu’ |
| **15:30** | **Te / coffi ac ymadael** |

**Cofrestrwch erbyn 30 Medi 2026 – carwyn@annibynwyr.cymru**

*Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl*

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**MODIWL Y SACRAMENTAU**

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

| | | |
|---|---|---|
| Nos Lun, 7 Medi | 7:30 – 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 14 Medi | 7:30– 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 21 Medi | 7:30 – 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 28 Medi | 7:30 – 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 5 Hydref | 7:30 – 9:00 | Zoom |
| Dydd Llun, 12 Hydref | 10:00 – 3:00 | Aberystwyth |

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn ‘beth yw sacrament?’, edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a’r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â’r Parchedig Carwyn Siddall: carwyn@annibynwyr.cymru

*Croeso cynnes i bawb*


~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*Barn Annibynnol*

# Noddfa yn nerth ac yn gymorth

Sut yda chi'n teimlo am fis Medi? I rai mae'n gyfnod trist o ffarwelio efo'r haf a'r dyddiau hirfelyn tesog. I eraill, mae'n gyfnod braf o ddod yn ôl i rywfaint o 'drefn' ar ôl wythnosau digyfeiriad yr haf. Er rhaid cofio fod nifer yn parhau i weithio drwy'r haf. Ond dyma'r cyfnod pan fydd y mwyafrif yn cael cyfle i fynd ar wyliau neu i fwynhau dyddiau allan a byw bywyd ychydig yn llai prysur na'r arfer.

Ond sut bynnag ryda chi'n teimlo – mae hi yn fis Medi sy'n golygu os oes plant neu bobl ifanc yn eich teulu neu'ch teulu estynedig yna bydd angen cael trefn a pharatoi i gychwyn dosbarth newydd yn yr ysgol neu gychwyn coleg, prifysgol neu gwrs hyfforddi. Efallai bydd rhai yn cychwyn gwaith newydd. Ond mae'n gyfnod i 'ddod nôl i drefn' – heb os! Dwi ddim yn berson 'rwtin' a deud y gwir, ac mae cychwyn tymor newydd ar ôl yr haf yn gallu bod yn sioc i'r system. Ond dwi'n teimlo'n gyffrous eleni am fod cyfnod prysur a chyffrous o'n blaen ni yn eglwys Noddfa, Caernarfon.

### Noddfa

Mae'r rhai sy'n fy adnabod yn gwybod, er bod fy ngwreiddiau a'm gweinidogaeth efo'r Annibynwyr, rwyf wedi treulio mwyafrif o fy amser rhwng corlan yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid! Ac ers ugain mlynedd dwi'n Weithwraig Gymunedol yn eglwys Noddfa, Caernarfon sy'n rhan o henaduriaeth Arfon. Mae'n un o eglwysi ieuengaf yr enwad a deud y gwir ac wedi ei sefydlu yn dilyn ymdrechion cenhadol Emily Roberts – neu'r Chwaer Emily fel roedd pobol yn ei hadnabod ac fel mae pobol yn ei chofio. Un o 'Chwiorydd y Bobl' oedd Emily; carfan o ferched oedd yn teimlo galwad i genhadu a gwasanaethu yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol a mwyaf difreintiedig Cymru dan nawdd Y Symudiad Ymosodol (The Forward Movement). Dechreuodd y gwaith yn niwedd y 19ganrif a daeth i ben yn y 1970au.

### Y Chwaer Emily

Yn y 1950au daeth Emily i genhadu a gwasanaethu i'r stad o dai cyngor newydd oedd wedi eu codi yng Nghaernarfon; stad Ysgubor Goch fel yr oedd yn arfer cael ei hadnabod. I ddechrau byddai Emily yn casglu plant y stad a mynd a hwy i'r ysgol Sul a'r gobeithlu yn y dref. Ond yn fuan iawn, teimlodd alwad i sefydlu cenhadaeth ar y stad – yng nghynefin y plant. A dyna a wnaeth! Capel sinc ddaeth yn gyntaf. Yn 1956 clywodd Emily fod capel Wesle ym Mhorthmadog yn cau a threfnodd i ddod â'r capel sinc ar drelars a'i godi yn Cil Peblig, Caernarfon. Tyfodd y gwaith ac yn fuan roedd yr hen gapel sinc yn rhy fach i'r holl blant ac oedolion oedd yn mynychu gwasanaethau a chyfarfodydd. Aeth Emily ati i drefnu codi arian i godi capel mwy sefydlog. Gyda chefnogaeth y gymuned a'r henaduriaeth codwyd adeilad newydd. Roedd Emily hefyd yn benderfynol o weld yr adeilad yn cael ei gysegru yn eglwys fel bod gan y gymuned ei eglwys ei hun. Cynhaliwyd y gwasanaeth cyntaf yn y Noddfa newydd ym mis Medi 1966. Gweithiodd Emily yn ddiflino er mwyn cyhoeddi neges Crist o gariad, maddeuant a gras a bywyd newydd ynddo Ef. O ganlyniad i'w hymroddiad, dioddefodd gyfnodau anodd o ran ei iechyd. Ond ei nod bob amser, oedd cryfhau er mwyn gallu parhau â'r gwaith a'r genhadaeth.



### Newidiadau

Sefydlwyd Noddfa a thyfodd y gwaith yn ystod y 50au a'r 60au – cyfnod pan y dechreuwyd gweld dirywiad ym mywyd ffydd yn ein gwlad, felly roedd Emily yn bendant yn llwyddo yn erbyn yr anawsterau. Ond erbyn yr 1970au, gwelwyd dirywiad mewn niferoedd yn Noddfa hefyd. Yn 1976 penderfynwyd trosglwyddo'r adeilad i bwyllgor newydd oedd wedi ei sefydlu i redeg Canolfan Gymunedol Noddfa. OND – fel rhan o'r cytundeb rhwng yr Eglwys a'r pwyllgor newydd, roedd yr Eglwys yn parhau i gyfarfod bob Sul ac yn gyfrifol am y ganolfan ar y Sul a neilltuwyd swyddfa at ddefnydd yr eglwys yn y ganolfan. Mae'r patrwm yn parhau hyd heddiw.

Yn yr 1980au cychwynnwyd ton o waith cenhadol newydd gan EBC dan nawdd Bwrdd y Genhadaeth ac ers hynny, mae gweithwyr cymunedol a gweithwyr ieuenctid wedi eu lleoli yn Noddfa er mwyn cenhadu a gwasanaethu – yn union fel gwnaeth Emily. Mae oedfa yn cael ei chynnal bob prynhawn Sul am 3 o'r gloch; gwasanaeth, paned a sgwrs – ac nid oes dal ym mha drefn fydd hynny'n digwydd! Ond os galwch chi heibio unrhyw Sul am 3, mi fyddwn ni yma yn moli Duw a chymdeithasu a chynnal ein gilydd. Mae'r gwaith hefyd yn ymestyn allan i wasanaethu yn y gymuned – fel gweledigaeth Emily.

### Cyffro dathlu

Felly pam ei bod yn fwy cyffrous mis Medi yma na unrhyw flwyddyn arall? Os ydych wedi bod yn graff, fe sylwch fod 2026 yn garreg filltir bwysig i ni yn eglwys Noddfa. Sefydlwyd y genhadaeth yma 70 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr eglwys 60 mlynedd yn ôl ac mae pwyllgor y ganolfan yn dathlu 50 mlynedd o fodolaeth. Felly mae llawer o ddathlu i'w wneud. Bydd gennym Oedfa o Ddathlu ar 20 Medi am 3 o'r gloch. Ac ar 18 Hydref bydd perfformiad o ddrama gomisiwn newydd ar fywyd a gwaith Emily Roberts yn Noddfa, wedi ei sgwennu gan Iola Ynyr, gyda Siwan Llynor yn actio Emily Roberts. Felly, mi fyddwn ni'n brysurach na'r arfer yma yn Noddfa – ond da yn wir fydd cael dathlu!

**Mererid Mair**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.).)




*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# O Ddinas Mawddwy i Utrecht

Chwerthin wnes i gyntaf pan ffoniodd Carwyn Siddall. Gofynnodd o a fyddwn i yn hoffi mynd i Utrecht i gynhadledd Ewropeaidd CWM (Council For World Mission). Bûm bron â diffodd y ffôn, deud gwir, yn meddwl fod rhywun yn tynnu fy nghoes! Doedd gen i ddim syniad lle'r oedd Utrecht i ddechrau cychwyn, a wyddwn i ddim byd am CWM. A pham fyddai Undeb yr Annibynwyr eisiau fy ngwahodd i i fynd yno? Y fi? Hen rebel fel fi?

Ydw dwi'n aelod yn Ebeneser Dinas Mawddwy. Erbyn hyn fe'm perswadiwyd i ganu'r organ yno'n achlysurol. Dwi'n mynychu'n weddol gyson ond a bod yn gwbl onest fyddai neb yn fy nisgrifio fel aelod ffyddlon. Ar ochr fy nhad mae'r teulu'n Annibynwyr ers cenedlaethau. Cefais fy medyddio a'm derbyn mewn capeli annibynnol. Mi wnes ddewis priodi yng nghapel Bethesda Tywyn a bedyddio fy mhlant yma yn Dinas.



### Amheuwraig

Ond ffydd go wantan sydd gen i. Amheuwraig fawr i bob pwrpas. A dyna ddwedais i wrth Elinor Wyn Reynolds pan ffoniodd hithau i drafod mynd i Utrecht. 'Mae 'na bobl reitiach na mi ...' Er fy amheuon dwi yn gweld gwerth o fynd i'r capel. I wrando. I ystyried. I ganu. I sgwrsio. I fyfyrio. Ac mae hynny i gyd yn gwneud lles i mi. Cefais fy mherswadio y byddai mynd i Utrecht hefyd yn gwneud lles imi. Ac er fy mod i'n amau'n gryf y byddwn allan o fy nyfnder mi es efo gweddill y criw o Gymru, yn Annibynwyr ac yn Bresbyteriaid.

### Chwedleua

Mi roedd yn dridiau prysur dros ben – sgyrsiau, trafodaethau a gwasanaethau o ben bore tan amser swper. Y PKN (Eglwys Brotestannaidd yr Iseldiroedd) oedd yn gofalu amdanom ac roedd eu croeso yn wresog iawn. Fe fyddem yn cerdded bob bore am ryw hanner awr ar hyd glannau'r camlesi ac fe gefais sawl sgwrs ddiddorol wrth wneud hynny. Sgwrs am werth adrodd straeon a chwedlau efo dyn o dras Indiaidd, a oedd bellach yn byw a gweithio yn Luton. Oherwydd ei fod yn pryderu bod 'na gymaint o garfanu o fewn ei gymuned, roedd wedi creu partneriaeth efo cwmni theatr lleol; cwmni oedd fel arfer yn adrodd chwedlau a straeon o ddiwylliant Mwslemiaid. Fe drefnodd bod chwedleuwr yn ymuno efo nhw er mwyn rhannu chwedlau a straeon Cristnogol yn ogystal yn yr ysgolion lleol. Roedd hyn wedi creu mwy o ddealltwriaeth o'r diwylliannau gwahanol ymysg y disgyblion.

### Sol-ffa

Dro arall cefais sgwrs hynod ddifyr am sol-ffa efo Tsiry Randrianavelo yn wreiddiol o Fadagascar, ond bellach yn gweithio i CWM yn Singapore. Roedd o o'r un farn â minnau bod yr wyddor sol-ffa yn 'rhodd werthfawr' i ni gyd er mwyn gallu canu a rhannu cerddoriaeth efo'n gilydd. Mae'r sol-ffa yn cael ei defnyddio o hyd ym Madagascar. Dwi'n credu'r un mor gryf y dylem ei adfer yma yng Nghymru.

Rhaid cyfaddef imi deimlo allan o fy nyfnder fwy nag unwaith yn yr anerchiadau a'r gweithdai ond roeddwn hefyd yn falch o allu cyfrannu fy mhwt pan roeddwn yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny. Mi roeddwn yn gadael Utrecht wedi dysgu mwy nag oeddwn yn ei wybod cyn mynd yno ac wedi dod i adnabod criw cyfeillgar a hwyliog dros ben. Buom yn cyd-drafod a chydaddoli. Cydganu a chyd-chwerthin. Ac mae hynny yn llesol iawn tydi?

Chwerthin wnes i gyntaf pan ffoniodd Carwyn Siddall. Dwi'n falch i mi beidio â diffodd y ffôn.

**Mair Tomos Ifans**




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*